



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Pwyllgor Dyngarol – mae Pwyllgor Dyngarol y disgyblion yn awyddus i drefnu digwyddiad i godi arian i blant yr Wcraïn. Gwahoddir y disgyblion i wisgo rhywbeth melyn neu las i'r ysgol ar ddydd Mercher, Mawrth 23ain. Gwerthfawrogi unrhyw gyfraniadau ariannol mewn amlen erbyn dydd Gwener, Mawrth 25ain.

Clwb yr Urdd yn ail gychwyn ar nos Fercher, **Mawrth 16eg**, 3.30 – 4.30 ar gyfer Bl 2, 5 a 6
Mawrth 23ain – Bl 1, 3 a 4
Mawrth 30ain Bl 2, 5 a 6
Ebrill 6ed – Bl 1, 3 a 4

Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Ceredigion – dydd Sadwrn, Mawrth 26ain ym Mhontrhydfendigaid – rydym wedi derbyn amserlen ar gyfer yr Eisteddfod Rhanbarth. **Mi fydd angen i rieni / gwarcheidwaid a staff ddangos prawf o LFD negyddol cyn cael mynediad i'r eisteddfod.**

Unigolion – mi fyddwch wedi derbyn amser penodol ar gyfer perfformio yn ystod y bore - rhieni i wneud trefniadau cludiant os gwelwch yn dda.

Ymgom yn perfformio am 9.14 – 9.21 yn y Neuadd Fach – rhieni i wneud trefniadau cludiant os gwelwch yn dda.

Côr yn perfformio am 6 o'r gloch gyda'r Parti Llefaru i ddilyn yn syth am 6.10 – rydym wedi trefnu bws i'r côr a'r parti llefaru. Mi fydd y bws yn gadael yr Ysgol Gymraeg am 4.50 ac yn dychwelyd erbyn 7 o'r gloch. Ni fydd cynulleidfa ym Mhontrhydfendigaid. Cofiwch esgidiau a throwsus du, crys chwys coch yr ysgol a chrys-t gwyn oddi tano.

Mi fydd y **grwpiau dawnsio, y gerddorfa a'r ensemble** yn derbyn ymweliad gan y beirniad yn yr ysgol rhywbryd cyn gwyliau'r Pasg.

Dymuniadau gorau i bawb!

Noson Agored – cyfle i drafod cynnydd eich plentyn gyda'r athro / athrawes

Lleihau niferoedd ar y safle – er mwyn lleihau nifer yr oedolion sydd ar y safle mi fyddwn yn trefnu'r noson agored dros ddwy noson sef **nos Lun, Ebrill 4ydd a nos Fawrth, Ebrill 5ed.**

Trafod gyda'r athro / athrawes – bellach mae modd i ni drefnu noson agored ar safle'r ysgol. Os nad yw hyn yn bosib i chi yna mi fydd yr athrawon yn eich ffonio ar yr amser a nodwyd gennych ar yr amserlen (danfonir atoch dros e-bost yfory) Mi fydd 6 munud ar gyfer pob disgybl ac yna munud o seibiant cyn cychwyn yr apwyntiad nesaf. Gofynnir i bawb felly fod yn brydlon ac i gadw at yr amserlen.

Gwneud apwyntiad - Mi fydd angen i chi gofnodi enw eich plentyn ger amser sy'n gyfleus i chi ar yr amserlen a ddanfonir atoch yfory. Mi fydd angen i chi ddewis amser, cofnodi enw eich plentyn a phwy sy'n gwneud yr apwyntiad, yna dewiswch apwyntiad wyneb yn wyneb neu alwad ffôn. Yna caewch y ddogfen fel bod y manylion yn cael eu harbed ar gyfer y defnyddiwr nesaf. Gwnewch hyn erbyn dydd Gwener, Mawrth 25ain os gwelwch yn dda.

Cyrraedd a gadael yr ysgol - rwy'n ymwybodol nad ydych wedi bod i fewn yn yr ysgol ers dwy flynedd felly mi fydd staff cynorthwyol yr ysgol yn bresennol ar y safle ac yn helpu i'ch cyfeirio at ddosbarth eich plentyn. Anelwch i gyrraedd rhyw 5 munud cyn eich amser penodol er mwyn cael cyfle i weld llyfrau eich plentyn. Mi fyddwn yn gweithredu system un ffordd fel bod pawb yn cyrraedd drwy'r brif fynedfa. Gofynnir i chi adael drwy ddrws tân y dosbarthiadau ac yna dilyn y llwybr o gwmpas y cae i'r gât werdd ddwbwl sydd ger y pafiliwn.

Galwadau ffôn a negeseuon – rydym yn dymuno'n dda i Rhian Lewis sydd i ffwrdd am gyfnod oherwydd salwch. Mi fydd Ifor Davies yn ateb galwadau ffôn ac yn monitro negeseuon e byst sy'n mynd i swyddfa@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk Mae'n syniad da i gofio athro / athrawes eich plentyn i fewn ym mhob neges i'r ysgol. Mae cyfeiriad e-bost pawb ar wefan yr ysgol o dan 'Dosbarthiadau ac ADY'

Symptomau – cofiwch na ddylech ddanfôn eich plant i'r ysgol os ydynt yn arddangos unrhyw symptomau coronafeirws.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams,
Pennaeth, 15/03/2022



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Humanitarian Committee - the pupils' Humanitarian Committee is keen to organize an event to raise money for the children of the Ukraine. Pupils are invited to wear something yellow or blue to school on Wednesday, March 23rd. Any financial contributions will be appreciated in an envelope by Friday, March 25th.

Urdd Club resumes on Wednesday, **March 16th**, 3.30 - 4.30 for Yr 2, 5 and 6
March 23rd - Years 1, 3 and 4
March 30th Year 2, 5 and 6
April 6th - Years 1, 3 and 4

Ceredigion Regional Urdd Eisteddfod - Saturday, March 26th at Pontrhydfendigaid - we have received a timetable for the Regional Eisteddfod. **Parents / guardians and staff will need to show a negative LFD test before entering the eisteddfod.**

Individuals - you will be given a set time for performing - parents to make transport arrangements please.

Ymgom performing at 9.14 - 9.21 in the Neuadd Fach - parents to make transport arrangements please.

Choir performing at 6 o'clock with the Recitation Party immediately after at 6.10 - we have arranged a bus for the **choir and the recitation party**. The bus will leave **Ysgol Gymraeg at 4.50** and return by 7 o'clock. There will be no audience at Pontrhydfendigaid.

The dance groups, orchestra and ensemble will receive a visit from the judge at the school sometime before the Easter holidays
Best wishes to everyone!

Open Evening – an opportunity to discuss your child's progress with the teacher.

Reducing numbers on site - to reduce the number of adults on site we will be organizing the open evening over two evenings - Monday, April 4th and Tuesday April 5th.

Meeting the teacher - we can now arrange an open evening on the school site. If this is not possible for you then the teachers will call you at the time you have specified on the timetable (sent by email tomorrow). There will be 6 minutes for each pupil followed by a minute break before the next appointment begins. Everyone is therefore asked to be punctual and to follow the timetable.

Making an appointment - You will need to enter your child's name at a time convenient to you on the timetable that will be sent to you by email tomorrow. You will need to choose a time, record your child's name and who is making the appointment, then select a face-to-face appointment or phone call. Remember to close the document so that the details are saved for the next user. Please do this by Friday, March 25th.

Entering and leaving the school - I'm aware that many of you haven't been into the school for two years. We have arranged that the school support staff will be on site and will help direct you to your child's class. Aim to arrive 5 minutes before your appointment so that you can see your child's books. We will operate a one-way system so that everyone arrives via the main entrance. Please exit through the classroom fire door and follow the path around the field to the double green gate near the pavilion.

Phone calls and messages - we wish Rhian Lewis the school secretary well during a period of illness. Ifor Davies will answer phone calls and monitor emails that go to swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk It's a good idea to copy your child's teacher into every message to the school. The staff e-mail addresses are all on the school website under 'Classes & ALN'.

Symptoms - remember that you should not send your children to school if they show any symptoms of coronavirus.

If you have any worries regarding your child's wellbeing or education, then please contact me immediately.

R C Williams,

Headteacher
15/03/2022